

Casgliad

1. Cyflwyniad

Mae'r asesiad hwn yn cynnig cipolwg ar lesiant yng Ngwent, a'n cymunedau lleol, yn 2022. Er mwyn ei lunio, rydym wedi ystyried dros 120 o faterion, wedi ymgysylltu â'n trigolion a rhanddeiliaid eraill (er mai drwy dulliau digidol y gwnaed hyn yn bennaf oherwydd COVID-19), ac wedi ystyried Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Mae paratoi asesiad ar gyfer Gwent i gyd wedi bod yn dasg heriol ar adegau, gan fod adnoddau wedi cael eu cyfeirio at ymateb i bandemig COVID-19. Mae'n cwmpasu pum ardal awdurdod lleol ac yn dangos bod llawer yn debyg rhwng y materion sy'n effeithio ar bobl, cymunedau a busnesau ledled Gwent, ond bod rhai gwahaniaethau hefyd, a gaiff eu disgrifio yn y prif asesiad a'r Asesiadau Ardaloedd Lleol.

Mae'r asesiad yn dangos bod rhai agweddau ar lesiant sy'n gryfderau gwirioneddol i'n cymunedau:

- Mae cymunedau yng Ngwent yn gryf ac yn gysylltiedig, ac mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu cefnogi yn eu cymdogaethau lleol. Mae pandemig COVID-19 wedi atgyfnerthu'r cysylltiadau hynny a'r ymdeimlad o falchder sydd gan lawer o bobl yn eu hardaloedd lleol.
- Ceir economi amrywiol sydd â'r potensial i chwarae rhan flaenllaw yn niwydiannau'r dyfodol, gan gynnwys y rhai a fydd yn helpu i bontio i Gymru ddi-garbon.
- Mae amgylchedd Gwent yn cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd sy'n cefnogi planhigion a bywyd gwyllt, yn ogystal â chynnig manau agored i bobl ymweld â nhw a'u mwynhau, gan gyfoethogi eu hiechyd a'u llesiant.
- Caiff ein cymunedau eu hatgyfnerthu gan dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Gwent a sector y celfyddydau yn y rhanbarth, sy'n dod â phobl ynghyd, yn eu galluogi i ddysgu sgiliau newydd, ac yn cefnogi'r economi.

Mae'r asesiad hefyd yn dangos bod gan lesiant ein cymunedau rai gwendidau:

- Mae anghydraddoldebau'n bodoli o fewn ein cymunedau a rhyngddynt, gan effeithio ar sawl agwedd ar lesiant. Gall fod gan bobl sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig ddisgwyliad oes llawer byrrach, ac maent yn fwy tebygol o fyw â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Er bod y gyfradd cyflogaeth ledled Gwent yn debyg i gyfartaledd Cymru, mae llawer o deuluoedd yn ei chael hi'n anodd diwallu eu hanghenion sylfaenol, ac mae'r cynnydd mewn prisiau tanwydd a bwyd yn gwaethygu'r sefyllfa. Hyd yn oed mewn ardaloedd y mae'n ymddangos eu bod yn fwy cefnog, ceir ardaloedd o dlodi cudd.
- Mae ein hamgylchedd dan fygythiad ac mewn cyflwr gwael mewn rhai manau o ganlyniad i orddefnydd ac effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd.
- Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar dwristiaeth a'r sectorau chwaraeon a diwylliant, ac ar y swyddi a'r incwm a ddarperir ganddynt.

2. Gweithio gyda'n gilydd

Drwy gydol yr asesiad, mae'r cysylltiadau rhwng themâu a sefydliadau wedi dangos bod gwella llesiant yn dasg gymhleth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus feddwl mewn ffordd strategol a hirdymor, er mwyn atal problemau rhag gwaethygu neu osgoi ei gwneud hi'n anos i bobl eraill wneud eu gwaith. Mae llawer o sefydliadau'n rhan o sawl trefniant partneriaeth neu fenter ranbarthol ar yr un pryd, sydd i gyd yn gweithio ar agweddau gwahanol ar lesiant. Bydd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn sicrhau gwell cysondeb rhwng llawer o'r cydberthnasau hyn, gan gefnogi cyfleoedd i gydweithio â'r holl rwydweithiau a chymunedau hyn, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech a sicrhau'r manteision gorau posibl i drigolion, cymunedau, busnesau a chynefinoedd Gwent.

3. Canfyddiadau allweddol

3.1 Llesiant cymdeithasol

Mae'r asesiad yn dangos anghydraddoldebau o ran iechyd, tai, addysg a'r gallu i deithio, ledled y rhanbarth, a bod y bobl fwyaf amddifadus yn byw yn y cymoedd ac o amgylch ein trefi a chanol ein dinasoedd. Hefyd, ceir lleoedd lle mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis llifogydd, yn fwy tebygol o gael effaith andwyol ar bobl.

Mae disgwyliad oes yn anghyfartal iawn ledled Gwent, gyda'r disgwyliad oes iach cyfartalog ym Mlaenau Gwent tua 10 mlynedd yn llai na Sir Fynwy¹ Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a luniwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dangos llawer o anghenion iechyd a gofal pobl yng Ngwent ac yn ategu canfyddiadau'r asesiad hwn. Mae'n debygol y bydd effeithiau pandemig COVID-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl yn gwaethygu'r anghydraddoldebau hyn.

Hefyd, mai tai yn faes lle mae profiadau'n amrywio ledled y rhanbarth. Sir Fynwy sydd â'r gyfran isaf o amddifadedd tai, a Blaenau Gwent a Chaerffili sydd â'r gyfran uchaf². Yn Sir Fynwy y mae'r prisiau tai uchaf ar gyfartaledd a'r gymhareb prisiau tai ac incwm uchaf hefyd, ac ym Mlaenau Gwent y mae'r isaf³.

Ledled Gwent, mae tai sy'n gallu gwrthsefyll canlyniadau newid yn yr hinsawdd, megis llifogydd, sy'n addas ar gyfer anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n fforddiadwy, yn faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn y dyfodol. Mae'n bosibl y gallai ynni adnewyddadwy bweru llawer o'r cartrefi yn y rhanbarth a, thu hwnt i hynny, ddarparu ynni glân sy'n achosi llai o niwed i'r amgylchedd⁴.

Mae bron chwarter y disgyblion oedran ysgol yng Ngwent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n arwydd o'r lefelau tlodi yn y rhanbarth⁵. Adlewyrchir hyn mewn cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig mewn perthynas â'r plant hynny sy'n ennill graddau TGAU da (A*-C), lle nad yw'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal⁶, ond mae hyn yn amrywio llai rhwng yr awdurdodau lleol o gymharu â rhai o'r dangosyddion eraill. Nid yw'r

effeithiau hirdymor ar ddysgu, a'r hyn y byddant yn ei olygu i ragolygon pobl ifanc yn y dyfodol, yn glir eto.

Mae trafndiaeth wrth wraidd llawer o agweddau ar lesiant ac mae'n hanfodol er mwyn i bobl allu mynd i'r gwaith, siopa bwyd yn wythnosol, ymweld â ffrindiau neu ddefnyddio'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Gallai teithio llesol, megis cerdded a beicio, gadw pobl yn iach ac, ynghyd â thrafnidiaeth gyhoeddus, mae'n lleihau effeithiau negyddol y defnydd o geir preifat, megis llygredd aer. Mae natur wledig Sir Fynwy yn golygu bod trigolion yn fwy difreintiedig o ran trafndiaeth gyhoeddus na llawer o ardaloedd eraill, sy'n golygu eu bod yn fwy dibynnol ar gerbydau preifat⁷. Mae fforddiadwyedd trafndiaeth, boed yn berchenogaeth breifat neu'n drafndiaeth gyhoeddus, yn broblem i lawer o bobl yn ein cymunedau, gan gyfyngu ar eu cyfleoedd cyflogaeth a hamdden. Oherwydd y gofyniad i weithio gartref lle bynnag y bo modd yn ystod pandemig COVID-19, cyflymmodd y broses o newid i drefniadau gweithio hybrid ac, o ganlyniad i hyn a'r ffaith bod plant yn cael addysg gartref, gwelwyd lleihad syfrdanol mewn teithio. Hefyd, tynnodd hyn sylw at yr anghydraddoldebau o ran mynediad at seilwaith digidol a thechnoleg.

3.2 Llesiant economaidd

Mae gan Went economi amrywiol, gan gynnwys cwmnïau mawr sy'n allforio i bob cwr o'r byd a busnesau llai sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau i'r ardal leol. Mae Gwent mewn sefyllfa dda i fanteisio at y cyfleoedd newydd sy'n datblygu o ganlyniad i'r angen i ddatgarboneiddio ac adeiladu a gwella cadwyni cyflenwi lleol, a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd angen i'r sgiliau cywir fod ar gael yng Ngwent er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl.

Nid yw effeithiau pandemig COVID-19 ar economi Gwent yn gwbl hysbys eto, ac mae'n bosibl y byddant yn newid ein dealltwriaeth o weithgarwch economaidd yn ein cymunedau i raddau helaeth. O ganlyniad i ffyrlo a'r ffaith bod llawer o leoliadau lletygarwch a hamdden wedi cau am gyfnodau estynedig, aeth cyflogaeth ati i chwilio am waith arall, gan arwain at nifer sylweddol o swyddi gwag wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn ystod haf 2021⁸. Yn yr un modd, mae effeithiau hirdymor gadael yr Undeb Ewropeaidd yn aneglur o hyd, gyda newidiadau i gyllid, newidiadau i weithluoedd a chyfleoedd i fasnachu'n fyd-eang yn dal i ddod yn gliriach.

Mae'r gyfradd cyflogaeth yng Ngwent fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, er bod y cyfraddau cyflogaeth uwch yn Sir Fynwy a Chasnewydd yn gwrthbwysu'r ffigurau ychydig yn is yn yr ardaloedd eraill⁹. Er bod y cyfraddau cyflogaeth yn weddol debyg, ceir gwahaniaeth rhwng incymau yn ein cymunedau a rhwng dynion a menywod¹⁰, gyda llawer o bobl yn wynebu tlodi mewn gwaith, sy'n effeithio ar eu gallu i brynu'r hanfodion y mae arnynt eu hangen. Bydd cynnydd mewn costau byw, gan gynnwys prisiau ynni, yn gwaethygu'r sefyllfa. Gall fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant effeithio ar allu rhieni i ymgymryd â mwy o waith neu waith gwell, gan leihau eu gallu i ddarparu ar gyfer eu teuluoedd ymhellach.

3.3 Llesiant amgylcheddol

Mae gan Went dirwedd nodedig sy'n cynnwys afonydd, mynyddoedd, coetiroedd, trefi, pentrefi a safleoedd treftadaeth. Mae'n darparu'r bwyd, dŵr ac aer sy'n angenrheidiol ar gyfer hanfodion bywyd, yn ogystal â lleoedd i'w mwynhau. Fodd bynnag, mae llawer o gynefinoedd a rhywogaethau dan fygythiad, gyda mwy na 70% yn cael eu dosbarthu fel rhai mewn cyflwr 'anffafriol', ac mae'r gofynion o ran cynhyrchu bwyd, adnoddau a datblygu yn rhoi mwy o straen ar yr amgylchedd. Mae'r sector amaethyddol yn cwmpasu tua 65% o dir Gwent, gan ddarparu cyflogaeth a bwyd lleol. Fodd bynnag, amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am rai o'r prif lygryddion sy'n cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr a chynefinoedd¹¹, yn ogystal â chreu tua 14% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru¹².

Mae pob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent wedi datgan argyfwng hinsawdd, gan gydnabod yr heriau a achosir gan orddefnydd o adnoddau naturiol a llygredd. Ar gyfartaledd, mae angen yr hyn sy'n cyfateb i adnoddau 3.3 planed ar unigolyn yng Nghymru i gefnogi ei ffordd bresennol o fyw¹³. Mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd¹⁴ yn awgrymu y bydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at fwy o stormydd, llifogydd a sychder, sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar y bobl fwyaf amddifadus yn ein cymunedau, yn ogystal â bygwth cynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae gan Went y potensial i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy wella systemau bwyd, ynni a thrafnidiaeth, yn ogystal â defnyddio adnoddau yn well a chynyddu cyfraddau ailgylchu. Bydd y newidiadau hyn yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, swyddi a busnesau newydd er mwyn cefnogi'r economi leol, ac yn helpu i ddiogelu a chyfoethogi amgylchedd amrywiol Gwent.

3.4 Llesiant diwylliannol

Mae effeithiau economaidd pandemig COVID-19 ar y sectorau chwaraeon a diwylliant wedi bod yn sylweddol, gydag incwm o dwristiaeth yn lleihau 70% a swyddi'n lleihau 52% o gymharu â lefelau 2019¹⁵. Mae treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Gwent, ynghyd â rhai o'r elfennau o ansicrwydd ynglŷn â chyfyngiadau ar deithio dramor yn y dyfodol, yn golygu bod y rhanbarth mewn sefyllfa dda i ymadfer ar ôl dwy flynedd anodd, ond gall hyn gymryd amser. Mae newidiadau i'r hinsawdd, megis hafau cynhesach, yn cynnig potensial i greu busnesau newydd a bydd angen y sgiliau cywir ar gyfer arlwy twristiaeth sy'n newid.

Mae sector y celfyddydau wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â chynulleidfaoedd, gan gynnwys drwy ddulliau digidol. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd newydd i rai, h.y. pobl sydd â phroblemau symudedd neu sydd ar incymau llai, ond wedi allgau eraill, h.y. pobl heb y cysylltedd digidol angenrheidiol. Yn debyg i lawer o ardaloedd eraill, wrth newid o berfformiadau a phrofiadau rhithwir i rai wyneb yn wyneb, bydd angen sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.

Yr iaith Gymraeg yw conglfaen diwylliant a threftadaeth Cymru ac mae nifer y siaradwyr Gymraeg yn cynyddu yn y rhan fwyaf o ardaloedd¹⁶. Mae amrywiaeth yng nghymunedau Gwent yn anghyson. Casnewydd yw'r ardal awdurdod lleol fwyaf amrywiol, gyda llawer o ieithoedd a diwylliannau'n byw ochr yn ochr â'i gilydd, gan rannu profiadau a syniadau.

Drwy gydol y pandemig, daeth cymunedau ynghyd yn anffurfiol i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed, neu i gysylltu â'i gilydd yn gyffredinol. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr i'r arolwg ymgysylltu at ymdeimlad o gymuned fel un o'r pethau a oedd yn gwneud eu cymdogaeth yn arbennig. Roedd llawer o bobl yn gwirfoddoli mewn ffyrdd mwy ffurfiol, megis cefnogi'r broses frechu neu helpu pobl i siopa neu ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae poblogaeth Gwent yn heneiddio, a all olygu y bydd mwy o bobl yn gwirfoddoli yn eu cymunedau ar ôl iddynt ymddeol.

4. Y Camau Nesaf

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn defnyddio'r dystiolaeth hon, a'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd drwy'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gynhaliwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, yn enwedig mewn perthynas â demograffeg ac amrywiaeth pobl Gwent, i lunio Cynllun Llesiant newydd ar gyfer Gwent.

Bydd angen ystyried beth mae hyn yn ei olygu i wahanol bobl, a sut mae'r agweddau gwahanol hyn yn rhyngweithio â'i gilydd. Bydd materion mewn un ardal yn effeithio ar agweddau ar lesiant mewn ardal arall, er enghraifft gall tai gwael gyfrannu at iechyd gwael, neu gall mynediad i gefn gwlad gefnogi iechyd meddwl da.

Gan ein bod bellach wedi casglu'r holl wybodaeth hon, y cam nesaf fydd ystyried beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am lesiant yn gyffredinol a beth y gellir ei wneud i'w wella. Gelwir hyn yn 'ddadansoddiad o'r ymateb', ac mae'n ymchwiliad manylach i rai o'r themâu allweddol a ddaw i'r amlwg o'r asesiad ac, yn bwysig ddigon, y ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd. Bydd y dadansoddiad manwl hwn yn rhoi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i bennu ei blaenoriaethau, a'r blaenoriaethau hyn fydd ei Amcanion Llesiant newydd.

Amcanion Llesiant y Bwrdd, a'r ffordd y byddant yn cyfrannu at lesiant ar lefel ranbarthol, isranbarthol a chymunedol, fydd y sail ar gyfer Cynllun Llesiant newydd Gwent, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Caiff yr amcanion hyn eu hategu gan Grwpiau Cyflawni Lleol ym mhob ardal awdurdod lleol, a fydd yn ystyried sut y gallant gyfrannu at y blaenoriaethau sy'n datblygu ar lefel fwy lleol.

Wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu, bydd cyfleoedd pellach, fel y nodir yn y bennod 'Ein dull o gynnwys pobl', i unigolion, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at y blaenoriaethau sy'n datblygu a'r gweithgareddau y bydd angen eu cynnal i fynd i'r afael â nhw. Bydd yr asesiad hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio i fonitro tueddiadau a chynnydd drwy gydol oes y Cynllun Llesiant newydd.

¹ Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019

² MALIC 2019, Llywodraeth Cymru

³ Arolwg blynyddol o oriau ac enillion (ASHE), SYG, 2020; cyflog cyfartalog, yn cyfuno enillion seiliedig ar breswylfa ac enillion seiliedig ar y gweithle; cymhareb prisiau tai ac incwm, yn seiliedig ar enillion seiliedig ar y gweithle

⁴ Renewable and Low Carbon Energy Assessment Regional Summary. Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Rhagfyr 2020

⁵ CYBLD 2020/21

⁶ Stats Cymru

⁷ MALC 2019

⁸ SYG, Swyddi Gwag a Swyddi yn y DU: Gorffennaf 2021

⁹ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)

¹⁰ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion - dadansoddiad o drigolion)

¹¹ Adroddiad Cyflwr Natur 2016

¹² Ffyniant i Bawb: Cymru, Carbon Isel, Llywodraeth Cymru 2019

¹³ Ecological and Carbon Footprints of Wales - Update to 2011, Sefydliad Amgylcheddol Stockholm a GHD, Gorffennaf 2015

¹⁴ Adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd 2018

¹⁵ Data STEAM GTS (UK) Ltd, 2021

¹⁶ Cyfrifiad 2011